# Beth yw dyfodol gwaith ieuenctid yng Nghymru?

**Mae Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro Cymru wedi llunio adroddiad ar gyfer y Llywodraeth yn gwneud argymhellion ar sut mae gwella pethau. Yr argymhellion yw:**

Dylai barn pobl ifanc siapio dyfodol gwaith ieuenctid.




Mae angen deddfau gwell i gefnogi gwasanaethau gwaith ieuenctid.




Dylai fod adolygiad annibynnol o sut mae arian yn cael ei wario ar waith ieuenctid ac a yw'n ddigon.



Dylid lansio cynllun hawliau i bobl ifanc. Bydd hyn yn cefnogi pob person ifanc i gael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau, ac fe allai gynnwys llawer o fuddion eraill fel theithio rhatach.



Mae angen rhagor o wasanaethau gwaith ieuenctid Cymraeg.




Dylai fod ganddon ni Weinidog Plant a Phobl Ifanc sy'n ymroddedig i wasanaethau gwaith ieuenctid.



Dylai'r Llywodraeth sicrhau bod gwasanaethau gwaith ieuenctid o wahanol rannau o'r wlad yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gwell gwasanaethau.



Dylid creu corff cenedlaethol newydd i gydlynu gwasanaethau gwaith ieuenctid, gyda'i hunaniaeth ei hunan fel bod pobl ifanc yn ei nabod.




Mae angen i'r Llywodraeth gryfhau'r ffordd mae pobl sy'n gweithio ym maes gwaith ieuenctid yn cael eu cofrestru er mwyn gwneud gwasanaethau'n fwy diogel i bawb.



Mae angen rhagor o rannu arfer da i gefnogi sefydliadau gwaith ieuenctid i wella ac arloesi.



Mae pobl ifanc angen mynediad at wybodaeth ddibynadwy am faterion sy'n bwysig iddyn nhw.



Dylai pawb sy'n gweithio ym maes gwaith ieuenctid sicrhau bod pob person ifanc yn cael eu trin yn deg a bod amrywiaeth yn cael ei annog.



Dylai rhaglenni hyfforddi rhagorol ac amrywiol fod ar gael i bawb sy'n gweithio ym maes gwaith ieuenctid.



**Bydd y Llywodraeth yn mynd ati nawr i ystyried pob argymhelliad. Bydd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn gwneud cyhoeddiad ym mis Rhagfyr ynghylch pa argymhellion fydd yn cael eu cyflwyno.**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government